# Ethol Pab newydd: Leo XIV



Daeth y newyddion bnawn Iau, 8 Mai, o Ddinas y Fatican fod Robert Prevost wedi'i ethol yn bab newydd. Ymddangosodd ar y balconi sy'n edrych dros sgwâr San Pedr toc wedi 18:15 o'r gloch, ychydig dros awr ar ôl i'r mwg gwyn o simne'r Capel Sistinaidd gadarnhau fod pab newydd wedi'i ddewis.

Y Pab Leo XIV yw'r dyn cyntaf o ogledd America i'w ethol yn arweinydd yr Eglwys Gatholig. Mae'n enedigol o Chicago yn yr Unol Daleithiau, ac yn 69 oed. Erbyn hyn mae wedi dechrau'n swyddogol yn ei rôl fel arweinydd 1.4 biliwn o Gatholigion o gwmpas y byd. Yn ôl yr arbenigwyr, mae'r ffaith i'r Pab newydd ddewis yr enw Leo XIV yn arwydd y bydd yn parhau â gwaith ei ragflaenydd, y Pab Ffransis, gan fod y Brawd Leo, oedd yn byw yn y 13eg ganrif, yn ddisgybl i Sant Ffransis.

Dywedodd yr Archesgob Mark O'Toole o Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw ei fod 'ar ben fy nigon' gyda'r newyddion. 'Gyda'i brofiad byd-eang a'i ffydd ddofn, rwy'n gwybod y bydd yn cael ei dderbyn yn gariadus, nid yn unig gan Gatholigion, ond gan gyd-Gristnogion a phobl o bob ffydd," meddai. 'Bydd yn gwneud cyfraniad eithriadol i heddwch a sefydlogrwydd yn ein byd.' Dywedodd Peter Brignall, esgob Wrecsam, fod y penderfyniad i ethol y pab newydd yn ei 'lawenhau'. 'Gwelaf ef yn rhoi parhad ac adnewyddiad parhaus i'r Eglwys,' meddai.

## Neges gan y Pab newydd

Frodyr, chwiorydd …

Rwy'n siarad â chi, yn enwedig y rhai ohonoch nad ydych yn credu mwyach, nad ydych yn gobeithio mwyach, nad ydych yn gweddïo mwyach, oherwydd eich bod yn credu bod Duw wedi eich gadael.

Rwy'n siarad â chi, y rhai sydd wedi blino ar sgandalau'r eglwys, ar gamddefnyddio pŵer, ar dawelwch Eglwys sydd weithiau'n ymddangos yn debycach i balas nag i gartref.

Roeddwn i hefyd yn ddig gyda Duw.
Gwelais i hefyd bobl dda yn marw, plant yn dioddef, neiniau a theidiau'n crio heb fedru cael meddyginiaeth.
Ac oedd … roedd yna ddyddiau pan oeddwn yn gweddïo ac yn teimlo adlais yn unig.

Ond yna fe wnes i ddarganfod rhywbeth:
nid yw Duw yn gweiddi. Sibrwd y mae Duw.
Ac weithiau mae'n sibrwd o'r mwd, o boen, drwy nain sy'n eich bwydo heb fod ganddi ddim.

Nid wyf yn dod i gynnig ffydd berffaith i chi.
Rwy'n dod i ddweud wrthych mai taith i'w cherdded yw ffydd, gyda cherrig, pyllau dŵr, a chwtshys annisgwyl ar hyd y daith honno.

Nid wyf yn gofyn i chi gredu ym mhopeth.
Rwy'n gofyn i chi beidio â chau'r drws. Rhowch gyfle i'r Duw sy'n aros amdanoch heb eich barnu.

Offeiriad a welodd Dduw yng ngwên gwraig a gollodd ei mab ydw i ... ac eto roedd hi'n paratoi bwyd i eraill.

Newidiodd hynny fi.

Felly, os ydych chi wedi'ch torri, os nad ydych chi'n credu, os ydych chi wedi blino ar y celwyddau ...
dewch beth bynnag. Gyda'ch dicter, eich amheuon, eich holl ofidiau a'ch cleisiau.
Fydd neb yma'n gofyn am gael gweld eich cerdyn gwahoddiad.

Oherwydd bydd yr Eglwys hon, cyhyd ag y byddaf yn anadlu, yn gartref i'r digartref, ac yn orffwysfa i'r blinedig.

Nid oes angen milwyr ar Dduw.
Brodyr sydd eu hangen arno.

Ac rydych chi, ie, rydych chi ...
yn un ohonyn nhw.

*Robert Prevost (Leo XIV)*

